CYNGOR TREF

AMLWCH

TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Ebost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Ebrill 23 2019 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday April 23 2019 at 7pm.

Presennol/*Present:* Gordon Warren (Cadeirydd/Chair), Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Meg Roberts, Mike Roberts, Gerry Belanger, Julie Ann Hughes, Andy Hughes

Yn bresennol/*In attendance*: Carli Evans-Thau (Clerc/*Clerk),* Hywel Hughes (Cyfieithu/*Translation),* Aelodau o'r cyhoedd / *Members of the public.*

Ymddiheuriadau/*Apologies*: John Byast, Gina Jones, Kevin Ellis, Carys Hughes, Richard Jones, Liz Wood, Cyng/Cllr Aled Jones

Yn Absennol/*Absent:* Cyng/Cllr Richard Griffiths

1 Croeso ac Ymddiheuriadau/*Welcome and Apologies*

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gordon Warren ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. Croesawyd Andy Hughes i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o'r Cyngor ac fe gyflwynwyd pawb yn ei dro.

Atgoffwyd pawb oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei recordio. Cafwyd wybod gan Myrddin Owens ei fod wedi cael cadarnhad gan Un Llais Cymru bellach eu bod wedi gwneud camgymeriad ynglyn a dileu ffeiliau sain wedi i'r cofnodion gael eu cymeradwyo. Mae polisi presennol y Cyngor felly yn sefyll sef cadw ffeiliau sain am gyfnod o chwe cyfarfod.

Nodwyd bod Andy Hughes yn aelod newydd yn dilyn etholiad di-wrthwynebiad. Mae angen i'r Cyngor gyfethol unigolyn ar gyfer yr ail sedd wag. Bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno eu cais i Swyddfa'r Cyngor Tref erbyn hanner nos Mai 1af 2019.

The meeting was chaired by Gordon Warren and all present were welcomed. Andy Hughes was welcomed to his first meeting as a member of the Council and everyone was introduced in turn.

Everyone present were reminded that the meeting was being recorded. Myrddin Owens said that he had received confirmation from One Voice Wales that they had made a mistake in relation to deleting audio files after the minutes had been approved. The Council's present policy therefore stands which is to keep audio files for a period of six meetings.

It was noted that Andy Hughes the new member had been elected unopposed. The Council need to co-opt an individual for the second vacant seat. Applicants will need to submit applications to the Town Council Office by midnight on May 1st 2019.

2 Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*

Gordon Warren – Adroddiad Cyllid/ Finance Report (cais am arian Ewyllys Da Amlwch request for funding)

Myrddin Owens - Adroddiad Cyllid/Finance Report (cwyn i'r Ombwdsmon/complaint to the Ombudsman)

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of the last meeting*

Cynnigwyd bod y cofnodion yn gywir. Cynnig Meg Roberts, eilio Gerry Belanger.
The minutes were proposed a true record. Proposed Meg Roberts seconded Gerry Belanger.

4 Materion yn codi */ Matters Arising*

4.1 (4) Ochrau Lonydd – mae CSYM wedi ymateb yn dweud bod yr ochrau dan sylw mewn cyflwr da. Bydd y gwaith o dorri'r ochrau yn dechrau ym mis Mai/Mehefin. Cytunwyd i gadw golwg ar y sefyllfa.

Grass Verges – IACC have responded noting that the verges in question are in good state of repair. The grass cutting will commence in May/June. Agreed to monitor the situation.

4.2 Marciau ar y Ffordd – Roedd yr aelodau yn siomedig gyda diweddariad Alun Roberts. Cytunwyd i ysgrifennu at Huw Percy a'r tri cynghorydd sir i fynegi pryder ar faint o amser mae hyn wedi ei gymryd a'r gwaith dal heb gael ei wneud.

Road Markings – Members were disappointed in Alun Roberts' update. Agreed to write to Huw Percy and the three county councillors to voice concern at the timescale taken and still no action.

4.3 Tyllau yn y ffordd yn Glorian – roedd yr aelodau yn siomedig gyda'r ateb a ddaeth gan GSYM mewn perthynas ag atgyweirio'r ffordd a'i chynnal a'i chadw. Cafodd ei gydnabod bod llawer o'r problemau diweddar wedi bod o ganlyniad i waith uwchraddio Dŵr Cymru yn yr ardal. Fodd bynnag nid yw cyflwr presennol y ffyrdd yn Amlwch yn dderbyniol. Cytunwyd i gysylltu gyda'r cyngor sir (a'r cynghorwyr) i ofyn bod y ffyrdd yn ardal Amlwch yn cael eu blaenoriaethu, gan gynnwys y ffordd lawr i'r harbwr. Cytunwyd yn unfrydol gofyn beth oedd y swm a werir ar ffyrdd yng Nghaergybi a Llangefni o'i gymharu a'r hyn sy'n cael ei wario yn Amlwch.

Glorian (Potholes) – members were disappointed at the response from IACC regarding road repairs and maintenance. It was acknowledged that a number of issues of late had been as a result of the Welsh Water upgrading work in the area however the current state of repair of the roads in Amlwch is not acceptable. Agreed to contact the county council (and councillors) to ask that the roads in the Amlwch Area be prioritised, including the road down to the harbour. It was unanimously agreed to ask for the sum allocated allocated to be spent on the roads in Holyhead and Llangefni in comparison to that allocated for Amlwch.

4.4 (4.2)Gwasanaeth Bws – mae Aled Jones yn cysylltu gydag Iwan Cadwaladr am fwy o wybodaeth.
Bus Service – Aled Jones was contacting Iwan Cadwaladr for further information.

4.5 (7)100k – nodwyd bod angen cadarnhad o'r hyn a ddywedwyd am y £100k mewn datganiad mewn cyfarfod cyhoeddus. Gobeithir cael eglurhad yn y cyfarfod nesaf.

£100k – it was noted that clarification was required regarding the £100k as noted in a statement made at a public meeting. It is hoped that an explanation can be provided at the next meeting,

4.6 (10) Cyfryngau Cymdeithasol – ei ohirio tan y cyfarfod nesaf gan nad oedd diweddariad ar gael.
Social Media – deferred to the next meeting as no update available.

4.7 Pwyllgorau'r Cyngor – mae llefydd gwag ar y Pwyllgor Parciau a Mannau Agored, Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Gefeillio. Nododd Andy Hughes ddiddordeb mewn bod yn aelod o'r Pwyllgor Parciau a Mannau Agored, cynigiwyd gan Myrddin Owens ac eiliwyd gan Meg Roberts. Nodwyd bod ymateb i ymgynghoriadau cynllunio yn rhan bwysig o waith y Cyngor; mae angen aelod ychwanegol ar y Pwyllgor Cynllunio.

Council Committees – Spaces are available on the Parks and Open Spaces Committee, Planning Committee and Twinning Committee. Andy Hughes noted his interest in being a member of the Parks and Open Spaces Committee, proposed Myrddin Owens, seconded Meg Roberts. It was noted that responding to planning consultations was an important part of the Council's work; an additional member is required for the Planning Committee.

5 Pwyllgorau Allannol / *External Meetings*

Dim/*None*

6 Pwyllgor Cyllid / *Finance Committee*

Rhoddodd Myrddin Owens grynodeb o'r cyfarfod diwethaf. Dywedodd bod dau sefydliad wedi gofyn am gymorth ariannol gan y Cyngor. Datganwyd diddordeb gan Gordon Warren a bu iddo adael y Siambr. Daeth y cais cyntaf gan Ewyllys Da Amlwch (Banc Bwyd) yn gofyn am £500 i wella ac ymestyn y gwasanaeth a gynigir. Cytunwyd i gyfrannu'r swm llawn yn amodol i gael copi o'u Polisi Iaith Gymraeg. Cytunwyd hefyd i brynu cadeiriau sbâr gan y grŵp i'w defnyddio yn Swyddfeydd y Cyngor. Daeth Gordon Warren yn ei ôl i'r cyfarfod.

Daeth yr ail gais am gymorth gan Sgowtiaid Amlwch a'r Girl Guides a oedd yn dymuno cynnal arolwg llawn o'r adeilad i gael gweld yn union beth oedd y gwaith a oedd ei angen er mwyn cyflwyno ceisiadau am grantiau ar gyfer ailwampio ac uwchraddio'r adeilad a oedd ym merchenogaeth y Cyngor. Cytunwyd i gyfrannu £540 sef cost yr arolwg.

Daeth i sylw'r pwyllgor bod plot ar gyfer claddu yn y fynwent angen sylw a'i fod yn beryglus. Caiff y gwaith ei gwblhau mor fuan â phosibl ac fe delir amdano o gyllideb pwyllgor y fynwent.

Mae'r archwiliad mewnol wedi ei drefnu ac fe ddaeth y dogfennau ar gyfer yr archwiliad allanol i law. Mae'r archwilydd wedi gofyn am gael gweld cylch gorchwyl pob pwyllgor. O ganlyniad fe fydd y pwyllgor cyllid yn cyfarfod gyda chadeiryddion pob pwyllgor i adolygu'r dogfennau mor fuan â phosibl.

Dywedwyd bod gofalwr toiledau'r porthladd wedi ymddiswyddo. Mae tenantiaid y ciosg yn fodlon gwneud y gwaith; cynigiwyd derbyn y cynnig ar yr un telerau a thaliadau fel o'r blaen. Nid oedd gwrthwynebiad.

Gadawodd y Clerc y Siambr tra rhoddwyd diweddariad mewn perthynas â'r gwyn i'r Ombwdsman gan y Pwyllgor Cyllid. Daeth y clerc yn ôl i'r ystafell gyfarfod ac yna bu i Myrddin Owens adael y Siambr. Rhoddwyd diweddariad gan Gordon Warren ar y gwyn a wnaed yn erbyn y Cynghorydd Myrddin Owens. Daeth Myrddin Owens yn ei ôl i'r ystafell gyfarfod.

Myrddin Owens gave a summary of the last meeting. He reported that two organisations had asked for financial support from the Council. Gordon Warren declared an interest and left the Chamber. The first request presented was from Ewyllys Da Amlwch (Foodbank) asking for £500 to improve and enhance the service offered. It was agreed to contribute the full amount pending receipt of the Welsh Language Policy. It was also agreed to purchase surplus chairs from the group for use at the Council Offices. Gordon Warren returned to the Chamber.

The second request for support came from Amlwch Scouts and Girl-guiding who wished to complete a full detailed survey on the building to identify exactly what work was required in order to submit grant applications for refurbishment and upgrade of the Council owned building. Agreed to contribute £540, being the cost of the survey.

It has been bought to the committee's attention that a burial plot in the cemetery needs attention and is dangerous. The work will be completed as soon as possible, to be paid for from the cemetery committee budget.

The internal audit has been arranged, and the documents received for the external audit. The auditor has asked to see the terms of reference for each committee. As such the finance committee will meet with the chairs of each committee to review the documents as soon as possible.

It was reported that the caretaker for the port toilets had resigned. The tenants at the kiosk are happy to the work; it was proposed to accept the offer on the same terms and payment as previously. There was no objection.

The clerk left the Chamber whilst an update was given regarding the complaint to the Ombudsman by the Finance Committee. The clerk returned to the meeting room and Myrddin Owens left the Chamber. Gordon Warren gave an update on the complaint made to the Ombudsman against Cllr

Owens. Myrddin Owens returned to the meeting room.

7 Prosiect Loteri/*Lottery Project*

Rhoddodd Mike Roberts ddiweddariad o gynnydd y prosiect loteri. Roedd y pwyllgor ymgynghorol a oedd wedi cyfarfod gyda nifer o gyflenwyr bellach mewn sefyllfa i gau pen y mwdwl ar y fanyleb a mynd allan i dendr.

Mike Roberts gave an update on the progress of the lottery project. The consultative committee having met with various suppliers is now in a position to finalise the specification and put out to tender.

8 Wylfa Newydd

Dim/*None*

9 Polisi Recordio Sain Cyfarfodydd/*Audio Recording or Meetings Policy*

Wedi'i drafod eisioes / *Already discussed.*

10 Cyfryngau Cymdeithasol/*Social Media*

Gohurio nes y cyfarfod nesaf / *Defer to next meeting.*

11 Canolfan Hamdden/*Leisure Centre*

Cadarhawyd bod cais rhyddid gwybodaeth arall wedi ei gyflwyno am fwy o wybodaeth. Nid oes ymateb hyd yma. Cadarnhawyd bod ebost wedi ei anfon yn gofyn am fwy o olau tu allan i'r ganolfan er mwyn gwella effeithlonrwydd y camerau CCTV sy'n goruwchwylio'r ardal.

It was confirmed that another freedom of information request had been submitted for further information. No response received to date. It was confirmed that an e-mail had been sent requesting more light outside the centre in order to improve the efficiency of the CCTV cameras that overlook the area.

12 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol/*Questions to the County Councillors*

Doedd dim un o'r cynghorwyr sirol yn bresennol. Cytuno ysgrifennu llythyr os na fyddent yn y cyfarfod nesaf.

Not one of the county councillors was present. Agreed to write a letter if not in attendance at the next meeting.

13 Gohebiaeth / *Correspondence*

13.1 Daw cais gan **Un Llais Cymru** i'r Cyngor gadarnhau ei cynrychiolaeth am y flwyddyn. Cytuno byddai Gordon Warren a Liz Wood yn parhau i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor ardal ar ran y Cyngor.

One Voice Wales *has asked the Council to confirm representation for the year. Agreed that Gordon Warren and Liz Wood continue to attend the area committee meetings on behalf of the Council.*

13.2 Cadarnhawyd bod adroddiad diweddaraf y **Pwyllgor Safonnau** yn dilyn eu harchwiliad diwedd 2018 ar ddiddordebau cynghorwyr wedi ei ddorbarthu i'r aelodau drwy ebost a cadarnhawyd bod yr aelodau wedi ei dderbyn. Nododd Myrddin Owens mai hwn oedd yr adroddiad cyffredinol, a bod adroddiad penodol Cyngor Tref Amlwch wedi ymweliad y pwyllgor i archwilio dogfennau wedi bod yn adroddiad da. Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith.

Fe ofynnwyd pa aelodau oedd wedi cwblhau'r gofrestr diddordebau personol gan nodi nad oedd llawer wedi gwneud. Cytuno ebostio copi o'r ffurflen i'r rheini oedd heb wneud hyd yma gan nodi mai proses gwirfoddol oedd gan y Cyngor Tref tra bod rhaid i gynghorwyr sirol gwblhau ffurflen tebyg ar gyfer y Cyngor sir.

*It was confirmed that the **Standards Committee's** most recent report following the audit at the end of 2018 of councillors' interests had been circulated to members via email; members confirmed receipt. Myrddin Owens noted that this was the general report, and that Amlwch Town Council's*

specific report following the committee's inspection of documents had been a good report. The clerk was thanked for her work.

The question was asked as to which members had completed the personal interest register and it was noted that not many had done so. Agreed to email a copy of the form to those who have not yet provided the information, noting that the Town Council had a voluntary process whilst it was mandatory for county councillors provide the information for the County Council.

14 Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business*

14.1 Siapio Cymunedau/ Place Shaping

Yn absenoldeb Carys Hughes, ni fu diweddariad. Cytuno gohurio'r drafodaeth nes y cyfarfod nesaf.

In the absence of Carys Hughes there was no update. It was agreed to defer the matter until the next meeting.

14.2 Lon Wen, Porth Amlwch/ Well St, Amlwch Port

Cafwyd gwybod bod yr ardal ger y fflatiau yn fler a bod rhan o'r wal wedi disgyn. Cytuno cysylltu a CSYM gan mai tai Cyngor ydynt.

Information was provided that the area near the flats was untidy and that part of the wall had fallen. It was agreed to get in touch with IACC because they are Council houses.

14.3 Garej Glanrhos Garage

Cytuno ysgrifennu at Adain Gwarchod y Cyhoedd a 'HSE' i godi ymwybyddiaeth am gyflwr yr adeilad a'r ffens o'i gwmpas. Mae'r safle yn gyffredinol mewn cyflwr gwael iawn ers peth amser bellach.

Agreed to write to the Public Protection Department and HSE to raise awareness about the condition of the building and the surrounding fence. The site in general has been in a bad state for quite some time.

15 Dyddiad y cyfarfod nesaf/*Date of next meeting*

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth Mai 28 2019 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.
The next meeting will take place on Tuesday May 28 2019 at 7pm at the Council Chamber.

Bu'r cyfarfod orffen am 19.50 / *The meeting closed at 19.50*

Arwyddwyd / Signed:
Gordon Warren, Cadeirydd / Chair